Wythnos Gwirfoddolwyr
Mehefin 1af—7fed 2009

Mae'r wythnos gyntaf ym mis Mehefin wedi hen ennill ei phlwyf yng nghalendr gwirfoddoli erbyn hyn, gan ei bod yn cael ei hadnabod yn genedlaethol fel "Wythnos Gwirfoddolwyr". Nod yr wythnos yn flynyddol yw **Cydnabod, Recriwtio a Gwobrwyo** gwirfoddolwyr. Eleni, roedd yr Wythnos yn cyrraedd carreg filltir arbennig gan ei bod yn chwarter canrif oed!! Trefnwyd gweithgareddau amrywiol gan **Ganol-fan Gwirfoddoli Gwynedd** i nodi'r achlysur :-

Gwirfoddoli yn cyrraedd y COPA - Taith ar y trên i ben yr Wyddfa

Cychwyn ar y tren o Lanberis

Uchafbwynt yr wythnos yng Ngwynedd oedd y diwrnod yn Llanberis, dydd Iau, 4ydd o Fehefin. Ar ddiwrnod braf, aeth bron i gant o wirfoddolwyr a chynrychiolwyr o fudiadau ar y trên i orsaf Clogwyn (¾ ffordd i fyny'r Wyddfa). Roedd awyrgylch hyfryd ar y daith, a'r golygfeydd yn fendigedig. Roedd cyfle i dynnu lluniau, cael picnic a sgwrs gyda hwn a llall yn ystod yr hanner awr yng Nghlogwyn cyn dychwelyd i'r orsaf yn Llanberis.

Pawb yn mwynhau'r daith!

a'r golygfeydd !!!

Wedi cyrraedd Gorsaf Clogwyn

Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones—Cadeirydd Cyngor Gwynedd a Gwenda Hughes (gwirfoddolwraig).

Te Dathlu a Diolch

Yn dilyny daith ar y tren cynhaliwyd **'Te Dathlu a Diolch'** yn y Mynydd Gwefru yn Llanberis. Roedd y digwyddiad yn gyfle i gydnabod cyfraniad gwerthfawr gwirfoddolwyr yng Ngwynedd. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Mr Aneurin Phillips, Pennaeth Parc Cenedlaethol Eryri. Cyflwynodd Mr Phillips dystysgrifau i nifer o wirfoddolwyr ymroddgar o Wynedd oedd wedi eu henwebu ar gyfer y gystadleuaeth 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2009' (gweler yr holl fanylion am enillwyr y Gystadleuaeth arbennig mewn erthygl arall yn yr adran newyddion).

Ms Margaret Griffith—Cadeirydd Is-Bwyllgor Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd yn croesawu gwesteion i'r Te.

Y Gacen Penblwydd!!

Stondin Deithiol

Gyda'r nod o ddenu cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth o wirfoddoli yn gyffredinol, bu stondin wybodaeth y Ganolfan Wirfoddoli yn ymweld â Chaernarfon, Blaenau Ffestiniog, Bangor, Pwllheli, Dolgellau a Thywyn yn ystod yr wythnos. Diolch i'r cynrychiolwyr o wahanol fudiadau ymunodd â'r stondin yn y gwahanol leoliadau.

Ar y maes yng Nghaernarfon—dydd Llun!

Ar y maes ym Mhwllheli—dydd Mercher !

O flaen y cloc ym Mangor—dydd Mawrth !